
# Cenn@d

CHWEFROR 18 2026 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 260

## Oedfa Ilston, 20 Ionawr 2026
## Joseph Harris ('Gomer')


GWEITHIAU AWDUROL


BARCH. JOSEPH HARRIS,

(GOMER.)

CHOFIAINT YR AWDWR A'I DEULU,

GAN D. AP RHYS STEPHEN.

LLANELLI:


SEREN GOMER:

NEU,

Gyfrwng Gwybodaeth Cyffredinol,

AM Y FLWYDDYN

1818.

CYHOEDDWYD GAN

J. HARRIS.

LLYFR Y CYNTAF.

CLUST Y DOETHION A GAIS WYBODAETH.

ABERTAWE:

ARGRAFFWYD AC AR WERTH GAN Y CYHOEDDWR.


SEREN GOMER.



Bob blwyddyn cynhelir 'Oedfa Ilston' o dan nawdd Undeb Bedyddwyr Cymru, yn cofio safle dechreuadau enwad y Bedyddwyr yng Nghymru, nid nepell o Abertawe. Eleni D. Densil Morgan oedd yn traddodi, gan gofio cyfraniad Gomer i hanes y Bedyddwyr.

Ganed Joseph Harris yn Llantydewi, rhwng Treletert a Chas-blaidd, sir Benfro, rywbryd yn 1773. Hwsmon, neu fân ffermwr yn rhentu ei dir ei hun, oedd William, ei dad, a byddai'r teulu'n addoli yn eglwys Sant Dogfael, eglwys y plwyf. Ni wyddys beth oedd enw ei fam, neu a oedd ganddo frodyr a chwiorydd, ond, ac yntau'n 19 oed, ceisiodd aelodaeth yn Llangloffan, cangen gynt o hen achos Rhydwilym a sefydlwyd yn eglwys ar wahân yn 1746. Erbyn dyddiau Joseph, roedd y Diwygiad Efengylaidd wedi dechrau gadael ei ôl ar enwad y Bedyddwyr, a Llangloffan wedi tyfu'n eglwys fyrlymus a bywiog gyda dros 300 aelod. Roedd tai cwrdd hefyd yn y Felin-ganol, ym Mhrendergast, ger Hwlffordd, yn Abergwaun ac yn Nhrefdraeth. Yn ôl arfer yr Hen Ymneilltuwyr, rhoddwyd Joseph yn aelod ar brawf, ac ar ôl chwe mis, yn 1793, fe'i bedyddiwyd ar broffes o ffydd.

Awydd anniwall am ddarllen oedd ar y dyn ifanc, a sêl dros gasglu gwybodaeth o bob math. Byddai'n rhigymu, os nad barddoni, o oedran cynnar, ac fel 'Josi'r Baledwr' y câi ei adnabod ymhlith ei gyfoeswyr. Cafodd ei annog gan ei gyd-aelodau i ddechrau pregethu, ac yn 1796 dechreuodd lefaru yng nghapel Llangloffan, yn y tai annedd cymdogol ac yn y tai cwrdd. Cyhoeddodd hefyd ddau bamffled, *Ychydig o Hymnau* yn 1793 a *Casgliad o Hymnau* dair blynedd yn ddiweddarach, y ddau yn ffrwyth bywiogrwydd crefyddol y cyfnod ac o ddymuniad cynyddol y llanc i lenydda. Ac roedd ei enwogrwydd fel pregethwr yn mynd ar led. Yn 1799, ac yntau erbyn hynny yn 26 oed, fe'i gwahoddwyd i ofalu am eglwys yr Heol Gefn yn Abertawe, canolfan oedd â'i phoblogaeth yn amlhau, ei diwydiant copr eisoes yn fyd-enwog a'i phorthladd prysur yn ei gwneud yn dref glan môr bwysicaf Cymru ar y pryd.

Pregethwr heb ei ordeinio oedd Joseph o hyd, â'i aelodaeth yn dal yn Llangloffan, ac am ddwy flynedd mynd 'nôl ac ymlaen oedd ei hanes rhwng ei gynulleidfa newydd a'i gartref yn sir Benfro. Ond yn 1801, ac yntau wedi priodi â Martha Symonds o Gasnewy'-bach, fe'i hordeiniwyd i gyflawn waith y weinidogaeth gyda'r ddau'n ymgartrefu'n derfynol yn y dref. Yno y byddai ef a Martha yn magu eu plant, un mab a phedair merch. Ac am y chwarter canrif nesaf, o Abertawe y byddai'n gwneud ei gyfraniad i fywyd crefyddol, diwylliannol a chymdeithasol ei wlad.

Carpiog, ar y gorau, oedd Saesneg gweinidog eglwys yr Heol Gefn, ac er mwyn meistroli'r iaith fain ymrestrodd, eto yn 1801, yng Ngholeg y Bedyddwyr, Bryste. Er mai cwta bedwar mis oedd hyd ei arhosiad yno, daeth yn drwm o dan ddylanwad y prifathro, y Dr John Ryland. Cymaint oedd ei edmygedd ohono nes enwi ei fab, John – a fyddai'n cymryd yr enw barddol 'Ieuan Ddu' maes o law – yn John Ryland Harris. Cafodd ei gadarnhau hefyd yn y Galfiniaeth genhadol, efengylaidd, agored, a oedd yn bennaf nodwedd athrawiaethol y sefydliad hwnnw.

Egni, diwydrwydd a dyfeisgarwch y tu hwnt i'r cyffredin oedd pennaf nodweddion ei fywyd o hynny ymlaen. Fel cynifer o Ymneilltuwyr poblogaidd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd ei grefydd yn bwydo'i ymlyniad cymdeithasol ac i raddau, ei

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

O Ddesg y Llywydd
Tudalen 3

*Dafydd Elis-Thomas: Nation Builder*
gan Aled Eurig
Tudalen 4

O'r galon
Tudalen 7

## *Oedfa Ilston, 20 Ionawr 2026*
## *Joseph Harris (‘Gomer’)*

*(parhad o dudalen 1)*

wleidyddiaeth hefyd, ond byth ar draul ystyriaethau fel pregethu, efengylu a diwinydda. Roedd yr Hen Ymneilltuaeth eisoes yn ymddatblygu’n Ymneilltuaeth newydd, dorfol, a radical, ac erbyn canol y ganrif y byddai wedi ysgubo popeth o’i blaen. ‘Wales’, meddai Henry Richard, a ddeuai yn aelod seneddol Merthyr yn 1871, ‘is now a nation of Nonconformists’. Byddai Harris a’i gyfoeswyr o Fedyddwyr yn y degawdau cynt: Christmas Evans, John Jenkins, Hengoed, a’i gyfaill mawr, Titus Lewis, ynghyd ag Annibynwyr fel Williams o’r Wern a Methodistiaid fel Thomas Jones o Ddinbych a John Elias o Fôn, yn benseiri’r Gymru newydd honno.

Gellid crynhoi cyfraniad Harris yn fras o dan dri phennawd: 1. Materion esboniadol, diwinyddol ac athrawiaethol; 2. Emynyddiaeth; a 3. – ac o bosibl y pwysicaf – y wasg gyfnodol.

### 1. Esboniadaeth a Diwinyddiaeth

Yn ymryson athrawiaethol y de-orllewin ar droad y ganrif, fel y rhan fwyaf o’i gyd-Fedyddwyr, yr ochr uniongred, Drindodaidd, a gymerodd Harris. Ei waith cyhoeddedig cyntaf wedi iddo gyrraedd Abertawe oedd *Bwyall Crist yng Nghoed Anghrist, neu Draethawd Byr ar Dduwdod Crist* (1804). Croesi cleddyfau â Josiah Rees, yr Undodwr o’r Gellionnen, a wnaeth, gan dynnu sylw at y deunydd ysgrythurol a phwysleisio arwyddocâd achubol yr argyhoeddiad uniongred ynghylch dwyfoldeb y Gwaredwr. Nid ymladd ag Undodiaid – nac ymladd â neb mewn gwirionedd – oedd pennaf nodwedd ei weinidogaeth, ond ddegawd yn ddiweddarach cafodd glod gan neb llai na Thomas Burgess, esgob Tyddewi, am y fersiwn Saesneg o’i *Draethawd ar Briodol Dduwdod ein Harglwydd Iesu Grist* (1817). Erbyn hynny roedd wedi datblygu yn un o dri athrawiaethwr pennaf y Bedyddwyr Cymreig; Jenkins Hengoed a Titus Lewis oedd y ddau arall.

Lewis oedd yr agosaf ato o ran argyhoeddiadau diwinyddol a chyfeillgarwch personol, a menter ar y cyd oedd golygu’r chwarterolyn *Y Drysorfa Efangylaidd* yn 1806. Dim ond dau rifyn a gyhoeddwyd, ond tasg drymach o lawer oedd cyhoeddi, mewn dwy gyfrol bwysfawr o dros fil o dudalennu yr un, *Esboniad y Dr Gill ar y Testament Newydd* (1810 ac 1812), cyfieithiad Cymraeg o waith John Gill, gweinidog eglwys Horsley Down, Llundain, yng nghanol y ganrif gynt. Gan i Lewis farw yn gynamserol yn 1811, ni chafwyd y drydedd gyfrol arfaethedig, ond o leiaf roedd gan Fedyddwyr Cymru esboniad yn eu hiaith eu hunain ar y pedair efengyl a phrif epistolau yr Apostol Paul.

Y fenter fawr nesaf oedd y newyddiadur *Seren Gomer* yn 1814. Erbyn hynny roedd Harris wedi dod i arddel y ffugenw ‘Gomer’ – ond cyn hynny, dywedwn air am ei gyfraniad at ganiadaeth y cysegr.

(*i’w barhau*)

*D. Densil Morgan*
*Llanbedr Pont Steffan*

# Robert Marcus Cull yn ‘Agor ein llygaid’

Mae’r emyn ‘Agor ein llygaid’ (*Caneuon Ffydd*, rhif 425) wedi dod yn boblogaidd fel Intrada mewn llawer o eglwysi erbyn hyn, ac efallai y byddai o ddiddordeb i ni glywed mwy am yr awdur ac amgylchiadau ei lunio.

Ganed yr awdur, Robert Marcus Cull, yn Los Angeles, California ym 1949. Roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn cerddoriaeth. Yn chwech oed, roedd yn canu’r piano yn eglwys ei rieni, ac yn ystod y blynyddoedd dilynol dysgodd chwarae dros ddwsin o offerynnau gwahanol. Aeth i Goleg Southern California (Vanguard University of Southern California erbyn hyn) yn Costa Messa, California, sy’n gysylltiedig â Chymdeithas Fyd-eang Cynulliadau Duw. Bu hefyd yn mynychu Calvary Chapel gerllaw, eglwys sy’n enwog am ei harddull addoli gerddorol.

Yn ystod ei ddyddiau coleg byddai Cull yn mynd i gyngherddau ar y campws. Roeddent yn cynnwys caneuon cyfansoddwyr a chantorion fel Andraé Crouch a Pat Boone o Fudiad Pobl Iesu oedd yn tyfu mewn poblogrwydd. Cododd y mudiad hwn mewn ymateb i ddau grŵp, hipis ac efengylwyr. Doedd y grwpiau hyn ddim yn credu bod ganddynt le ym mhrif ffrwd y gymuned Gristnogol. Daeth Cull yn rhan o’r mudiad yn California ac ymunodd ag un o’u grwpiau canu, The Accents, gan berfformio caneuon Cristnogol newydd. Rhyddhaodd y grŵp ddau albwm drwy Maranatha! Music, label recordio cerddoriaeth Gristnogol a sefydlwyd yn 1971 fel rhan o weinidogaeth estynedig Calvary Chapel. Ar ôl priodi, canai Cull gyda’i wraig, Joy Strange, cantores gyda Maranatha! Music, a’r band Cristnogol Parable, a rhyddhau pedwar albwm arall (1979–1984).

Yn 1975, yn Hawaii, gwahoddwyd Cull i roi cyngerdd am awr yn ystod y prynhawn yn un o ysgolion y plwyf. Cyrhaeddodd yn gynnar a cheisiodd siarad â rhai aelodau o’r staff. Doedd yr un ohonynt eisiau siarad am Iesu. Tua hanner awr cyn y cyngerdd roedd yn eistedd wrth y piano yn meddwl y byddai’n diflasu pawb hyd at syrffed gan mai’r cyfan roedd am ei wneud oedd canu am Iesu. Mae’n cofio gweddïo fel hyn: ‘Arglwydd, yr hyn sydd angen i ni ei weld yw’r Iesu go iawn ond mae’n ymddangos nad oes unrhyw un yma yn dy adnabod.’ Yna, yn sydyn, daeth cân fach syml i’w ben. Fe’i rhoddodd ar bapur yn gyflym. Cymerodd tua deng munud i’w hysgrifennu. A’r gân honno oedd ‘Open our eyes, Lord’. Canodd hi wedyn i bawb yn yr ysgol, a hynny am y tro cyntaf erioed. Pan ddychwelodd Cull i’w eglwys yn California, roedd rhywun eisoes wedi mynd â’i gân yn ôl a’i dysgu i’r gynulleidfa. Gofynnodd Maranatha! Music iddo baratoi trefniant cerddorol ar gyfer y gân a’i recordio. Fe’i cyhoeddwyd gan Maranatha! Music yn 1976.

Hon yw ei gân enwocaf, a chaiff ei chanu ledled y byd Cristnogol. Yn ddiweddarach, daeth Cull yn weinidog ar Midcoast Country Chapel, Wiscasset, Maine. Yn dilyn ei ymddeoliad yn 2014, symudodd Cull i Friday Harbor, Washington, ac mae bellach yn byw yn Eastsound, Washington. Mae Mudiad Pobl Iesu a’r gerddoriaeth a gynhyrchodd, fel yr emyn ‘Open our eyes, Lord’ a chaneuon mawl eraill, wedi cael effaith barhaol ar ddatblygiad cerddoriaeth mewn addoli cyfoes heddiw.

Troswyd yr emyn i’r Gymraeg gan Catrin Alun, Pont-lliw, Abertawe, ac mae’n un o nifer o emynau a droswyd ganddi sydd wedi’u cynnwys yn *Caneuon Ffydd*. Gweddi sylfaenol i bob Cristion sydd yn y pennill. Mae’n gofyn i Dduw ‘agor ein llygaid’ i weld Iesu ac ‘agor ein clustiau’ i wrando arno. Bydd hynny’n gymorth i ni agor ein calon i ’nabod Iesu. Dywed Iwan Llewelyn Jones yn *Caneuon Ffydd 3*: ‘Wedi gweld, wedi gwrando, ni chredaf y gallai’r un ohonom beidio ag agor ei galon iddo, a rhoi lle iddo deyrnasu ynddi a’i gwneud yn gartref i “feddyliau prydferth gras”.’

*(O Bapur Elim, Heol Awst a’r Priordy)*

# O Ddesg y Llywydd

Rydw i newydd ddychwelyd o'r cyfarfod wyneb yn wyneb mawr cyntaf ers peth amser – y Gynhadledd Ailstrwythuro yn Wrecsam. Cyn dechrau gwneud sylwadau ar gynnwys y diwrnod, a gaf i ddweud pa mor llawen oedd gweld dros 100 o bobl yn y cnawd! Mae i gyfarfodydd Zoom eu manteision, ond mae cael cymdeithas yr eglwys yn hollbwysig. Roedd y ffaith fod cynifer o bobl wedi gwneud yr ymdrech i deithio, pobl o'r holl ystod oedran yn ein henwad, yn galonogol ynddo'i hun.

Ond yn fwy na hynny roedden nhw wedi dod i fod yn rhan o drafodaeth am newid. Roedden nhw'n edrych ar gynigion penodol fel aelodau o eglwys leol neu henaduriaeth neu gymdeithasfa. Roedd rhai pobl yn chwilio am eglurhad y tu ôl i'r cynigion, roedd rhai eisiau mwy o fanylion, ond roedd yna barodrwydd i ymgysylltu â newid – yn benodol syniadau a fyddai o fudd i'w heglwys a'u henaduriaeth leol. Felly, gobeithio y bydd gennym gyfle yn y cam nesaf, yn dilyn ymatebion i'r ymgynghoriad, i rannu arferion da, i ddarparu hyfforddiant ac i gefnogi unigolion i gario'r weledigaeth honno ymlaen. Oherwydd mae'r cynigion yn ymwneud â mwy na strwythur. Maent yn ymwneud â galluogi pobl i ymgysylltu'n fwy effeithiol mewn cenhadaeth a gweinidogaeth.

Mae'r cyfnod cyn yr etholiadau gwleidyddol ym mis Mai wedi dechrau, a bydd agenda pob plaid yn cynnig llawer o gynigion am newid. Ond, o'r cyfan, Cristnogaeth sydd â'r agenda fwyaf radical, gwahanol ac ystyrlon. Ei neges unigryw yw ei bod yn drawsnewidiol a'i bod yn trawsnewid pobl o'r tu mewn. O hynny bydd pob agenda gymdeithasol yn llifo. A gall pobl sydd wedi'u trawsnewid wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Yng nghysgod newyddion y byd, a fydd pobl yn chwilio am neges gan yr Eglwys sy'n wahanol? Rwy'n gobeithio ac yn gweddïo hynny.



Miss Glynis Owen, Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, EBC

Mae gan Gristnogaeth gymaint i'w ddweud wrth y byd, felly rwy'n gobeithio y byddwch yn parhau i ymgysylltu â'r trafodaethau am ddyfodol Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Mae gennym 12,000 o aelodau o hyd a dros 450 o eglwysi ledled Cymru. Mae hynny'n fwy nag oedd gan yr Eglwys Fore na'n sylfaenwyr!

Yr wythnos hon croesawodd rhai ohonom swyddogion Cymundeb Byd-eang yr Eglwysi Diwygiedig (WCRC) i Drefeca a'u Hysgrifennydd Cyffredinol newydd, y Parch. Philip Vinod Peacock, o Eglwys Gogledd India. Weithiau rydym yn anghofio ein bod yn rhan o sefydliad sy'n cynnwys 100 miliwn o Gristnogion o 230 o eglwysi sy'n aelodau mewn 109 o wledydd. Mae'n rhoi persbectif gwahanol ar Gristnogaeth. Clywsom am ymatebion Cymundeb y Byd i'r heriau amrywiol a niferus y mae'r Eglwys yn eu hwynebu mewn gwledydd eraill, ond hefyd am dwf sylweddol yr Eglwys mewn rhannau o'r byd. Yn benodol, roedd yn dda clywed am y cyfleoedd hyfforddi i'r rhai sy'n dymuno mynd i mewn i'r weinidogaeth a gwybod bod y swyddogion wedi ymrwymo i deithio i gynifer o aelod wledydd â phosibl i gryfhau Cymundeb yr eglwysi.



Philip Vinod Peacock, Ysgrifennydd Cyffredinol y WCRC, a Nan Powell-Davies, Ysgrifennydd Cyffredinol EBC, yn Ystafell yr Arglwyddes Hungtindon, Trefeca

Mor ffodus ydym ni fod ein Hysgrifennydd Cyffredinol wedi adnabod swyddogion y WCRC a CWM yn bersonol dros nifer o flynyddoedd, a'n bod ni hefyd wedi cael cymundeb â swyddogion Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, a ymunodd â ni yn ystod y dydd. Roedd llawer ohonyn nhw wedi bod gyda'i gilydd yng ngwasanaeth sefydlu Philip i'w swydd newydd yn Hannover yn yr Almaen (lle mae eu swyddfa) yn ddiweddar.

Mae cymundeb yn bwysig, boed mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn ein henwad neu mewn cyd-destunau gwahanol iawn. Trwy'r Ysbryd Glân, gallwn ni wneud pethau gwych yn unigol ac ar y cyd. Gadewch i ni beidio â digalonni ac yn sicr beidio â cholli ffydd! Gadewch i ni weddïo am gyfleoedd newydd i rannu newyddion da'r Efengyl a chynllunio ar eu cyfer, yn enwedig gyda phawb sydd angen eu clywed.

*Glynis Owen yw Llywydd Cymanfa Gyffredinol EBC*

## Ailstrwythuro – podlediad newydd

Mewn cyfnod o argyfwng, daeth cynrychiolwyr Eglwys Bresbyteraidd Cymru at ei gilydd yng Nghapel y Groes, Wrecsam, yn ddiweddar i drafod cynlluniau beiddgar ar gyfer dyfodol ye eglwys a'i strwythur. Roedd yr angen i newid neu wynebu dirywiad ar garlam yn flaenllaw ym meddyliau pawb a ddaeth yno. Yn y podlediad newydd hwn, mae Ysgrifennydd Cyffredinol EBC yn myfyrio ar y cyfarfod arwyddocaol hwn.

https://rss.com/podcasts/podlediad-presbyteraidd-presbyterian-podcast/2545021



Nan Powell-Davies a Joanna Thomas-Wright yn y Gynhadledd Ailstrwythuro

# *Dafydd Elis-Thomas: Nation Builder* gan Aled Eurig

Mae Dafydd Elis-Thomas yn un o'r ffigurau cenedlaethol hynny sydd, o edrych yn ôl, fel petai wastad wedi bod yna rywle yn y cefndir, mewn modd nid annhebyg i'r ffordd yr oedd rhai'n gweld y Frenhines! Wrth dyfu i fyny mewn cartref Plaid Cymru, rwy'n cofio'r teimlad rhyfedd hwnnw o bendro: gallu teimlo parch a chynhesrwydd tuag ato, hyd yn oed ymdeimlad ei fod yn ffigwr arbennig yn stori'r genedl, ac eto – bron ar yr un pryd – cael fy ngyrru'n wallgof ganddo.

Doeddwn i ddim yn ei adnabod yn bersonol, ond cefais ambell gyfle dros y blynyddoedd i gwrdd ag ef a chael sgwrs. Byddai'n creu argraff bob tro, yn hynod o ddeallus, ac yn drawiadol o eang ei ddiddordebau – yn cynnwys maes athroniaeth a diwinyddiaeth, a oedd, yn naturiol, o ddiddordeb arbennig i mi. Flynyddoedd cyn darllen y llyfr hwn, roeddwn i eisoes wedi dod i'w weld fel paradocs. Ac mae *Nation Builder* yn gosod y paradocs hwnnw ar bapur – cofnod du a gwyn i'r oesoedd.


Mae Aled Eurig wedi llwyddo i ysgrifennu cofiant sy'n wirioneddol ddarllenadwy. Does dim teimlad yma eich bod yn gorfod ymladd eich ffordd drwy fanylion diflas neu ddiangen. Mae'r hyn sy'n cael ei gynnwys yno am reswm: straeon sy'n datgelu cymeriad, manylion sy'n difyrru, a digwyddiadau bach sydd â phwysigrwydd cenedlaethol llawer mwy nag sy'n ymddangos ar yr olwg gyntaf.

Ar nodyn mwy personol, cefais sioc a boddhad wrth ganfod dau gyfeiriad at fy nhad yn y llyfr. Mae un yn dyfynnu llythyr a anfonodd at Dafydd El yn gynnar yn yr 1980au yn ei annog ef a threfnydd lleol Plaid Cymru, Elfed Roberts, i gymodi. Mae'r llall yn neidio ymlaen dros ddeugain mlynedd, i gyfnod pan oedd Dafydd yn Weinidog Diwylliant a 'Nhad yn Brif Weithredwr y Llyfrgell Genedlaethol. Mae Aled Eurig yn rhoi clod iddo fel un o'r ychydig rai a lwyddodd i gael ei ffordd gyda Dafydd ar fater polisi a chyllid – camp, o ystyried styfnigrwydd Dafydd.

Mae'r bennod agoriadol, sy'n trafod ei fagwraeth mewn capel anghydffurfiol yn y 1950au fel mab gweinidog, yn agoriad llygad. Fel gweinidog fy hun, mae'n anodd dychmygu pa mor wahanol oedd y byd hwnnw. Mae anghydffurfiaeth wedi colli'r statws cymdeithasol a diwylliannol oedd ganddi yng nghanol yr ugeinfed ganrif. Ac eto, er ein bod yn llai o lawer heddiw, mae rhan ohonof yn meddwl ein bod yn iachach o'i herwydd.

Un peth a arhosodd gyda mi drwy'r llyfr yw'r syniad mai dim ond pan welir bywyd a gyrfa amrywiol Dafydd El fel ymateb i anghydffurfiaeth – a'r un pryd fel gwerthfawrogiad ohoni – y mae'r cyfan yn gwneud synnwyr. Paradocs, ie. Ond paradocs oedd Dafydd, o'r dechrau i'r diwedd. Dim ond syncretiaeth anghydffurfiaeth canol yr ugeinfed ganrif allai greu uchelwr oedd hefyd yn Farcsydd ac Ucheleglwyswr.

Mae'r llyfr yn cloi ar nodyn trist, gan gofnodi ei ffrae olaf â Phlaid Cymru a'i fethiant i ailymuno â'r blaid yn hwyr yn ei oes. Nid oedd yn barod i fynd drwy'r broses arferol o aildderbyn aelodau oedd, ar ryw adeg, wedi dwyn anfri ar y blaid. Ymddengys ei fod yn teimlo y dylid ei groesawu'n ôl heb y drefn arferol – oherwydd, wel, Dafydd El oedd e.




Dafydd i'r dim: hyderus, beiddgar, ac yn y pen draw yn wrth-gynhyrchiol braidd. O ganlyniad, mae'r stori'n colli'r bwa adferol yr oedd, mae'n debyg, yn chwilio amdano yn ei ymddeoliad.

Erbyn y diwedd, roedd y llyfr wedi fy atgoffa pam y gallai Dafydd fy nghythruddo mor aml. Ond roedd hefyd wedi fy atgoffa o rywbeth arall. Ein Dafydd ni oedd e. Ac er gwaethaf popeth, alla i ddim peidio â'i garu. Mae *Dafydd Elis-Thomas: Nation Builder* yn gofiant cryf i gymeriad cryfach – un sy'n perthyn i'r Gymru wnaeth fy nghreu. Diolch.

*Rhys Llwyd*

*(Dafydd Elis-Thomas: Nation Builder, Aled Eirug; Gwasg Prifysgol Cymru, 2025; pris £25)*

## Y Grawys o Gaernarfon

Caernarfon yw'r dref â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg, gyda dros 81% yn siarad yr iaith yn ôl Cyfrifiad 2021. Gellid dadlau felly fod edrych ar y byd drwy lygaid ei thrigolion yn rhoi golwg fwy Cymreig i ni nag yn unman arall. Tybed felly a yw benthyg sbectol y dref yn gymorth i ni ddeall a chymhwyso neges y Pasg i'n dyddiau ni ac i ni fel Cymry?

Dyna un cymhelliad i ni ofyn i weinidogion y dref ein tywys drwy oedfaon y Grawys ar BBC Radio Cymru eleni. Bydd y gweinidogion – Anna Jane Evans, Jenny Knott, Rhys Llwyd, Hannah Smethurst, Dylan Williams a Mererid Mair Williams – yn cydweithio ar wyth oedfa, un oedfa bob Sul ac oedfa Gwener y Groglith, i'n tywys ar daith y Grawys. Edrychwn ymlaen at wasanaethau fydd yn ein harwain i ddeall bywyd, gwaith, marwolaeth ac atgyfodiad yr Iesu'n well, ond gan wneud hynny a'n traed yn solet yn ein gwlad ein hunain ac yng nghanol ein diwylliant (neu ein diwylliannau) ein hunain.

Bydd yr oedfa'n cael ei darlledu am 12 o'r gloch bob Sul ar Radio Cymru, ar BBC Sounds neu ar eich seinydd clyfar. Felly, er mwyn gwneud yn sicr na fyddwch yn colli 'run o'r oedfaon, ewch i BBC Sounds a tharo'r blwch tanysgrifio. Wedyn, bydd pob oedfa ar gael i chi.

Tra byddwch chi ar BBC Sounds, cofiwch danysgrifio i *Bwrw Golwg* (Sul, 12.30 o'r gloch) hefyd a chael sgyrsiau difyr am gwestiynau moesol a chrefyddol y dydd, ar gael i wrando arnyn nhw pryd bynnag sy'n hwylus i chi. Mae *Bwrw Golwg* a'r *Oedfa* yn gynyrchiadau cwmni Tonnau ar gyfer BBC Radio Cymru.

## Y GRAWYS – WYTHNOS 1

# Presenoldeb a chyd-deithio wrth galon cymunedau




### Darlleniad

*Mathew 5:13–16*

### Myfyrdod

Pan fyddwn yn ystyried pa mor ddwfn yw'r rhaniad yn y ddadl gyhoeddus ar lawer o faterion cyfiawnder cymdeithasol a thystio i'r modd ysgytiol y gall canlyniadau'r gwrthdaro dinistriol hwn effeithio ar gymunedau lleol, gallwn deimlo'n ddi-rym i drawsnewid y realiti pryderus hwn. Hefyd, gall yr elyniaeth y gellir ei phrofi weithiau mewn ymateb i alwadau am undod, cynhwysiant, dealltwriaeth neu hyd yn oed ddim ond dadl barchus, fod yn frawychus ac yn llethol.

Mae ein darlleniad ar gyfer heddiw yn ein hatgoffa bod gennym rôl bwysig i'w chwarae drwy rannu'r gobaith a gawn yn ein ffydd a her yr egwyddorion moesegol sy'n deillio o'r ffydd honno. Mae eglwysi yn parhau i fod yn sefydliadau pwysig wrth galon cymunedau lleol, gan deithio ochr yn ochr â phobl yn llawenydd a gofidiau mwyaf eu bywydau. Mae'r presenoldeb hwnnw'n cynnig sylfaen ar gyfer perthynas o ymddiriedaeth. Yn ystod cyfnodau diweddar o wrthdaro, fel ym mhrofiad cymunedau lleol sydd wedi'u heffeithio gan derfysgoedd, rydym wedi gweld bod arweinwyr eglwysi, ochr yn ochr â chynrychiolwyr cymunedau ffydd eraill, yn parhau i gael eu hystyried fel pobl onest, hyd yn oed mewn cymdeithas gynyddol seciwlar. Mae hyn yn creu cyfle i'r Eglwys gyfrannu at adeiladu pontydd, gan helpu i gyrraedd y rhai sydd wedi cael eu dieithrio, eu hynysu, neu sy'n teimlo fel pe baen nhw'n cael eu gwthio i'r cyrion, gan greu cyfleoedd i gyfarfod a datblygu cyd-ddealltwriaeth. Gall gwaddol y presenoldeb hirsefydlog hwn a'r buddsoddiad mewn cymunedau fod yn rhodd i'r Eglwys ac i'r gymuned ehangach yn ystod amseroedd cythryblus. Ond ni ddylem fod yn naïf ynglŷn â'r ffyrdd y mae'r safle yma o arweinyddiaeth hefyd wedi gwneud yr Eglwys yn fan lle ceir o llawer o gystadleuaeth amdano yng nghyd-destun gwrthdaro sy'n seiliedig ar hunaniaeth. Mae hyn yn rhywbeth heriol i ymdrin ag ef wrth i ni geisio cyflwyno neges o groeso a pherthyn i bawb. Gall cydnabod yn ein deialog eciwmenaidd fod hon yn her a rennir gennym ein helpu i gyfleu tystiolaeth Gristnogol ddilys ar y cyd mewn maes cyhoeddus sy'n chwalu.

Mae ein darlleniad heddiw yn ein galw i fod yn hyderus wrth gofleidio'r cyfleoedd a roddir i ni i ddangos arweinyddiaeth, gan werthfawrogi'r adnoddau sy'n ein cefnogi yn y gwaith hwn. Ar yr un pryd, cawn ein galw i gydnabod yn ostyngedig ein bod yn rhan o gymunedau rhanedig, yn byw'r rhaniadau hyn ac yn cael ein galw i siarad yn onest o'r profiad hwnnw yn hytrach na phregethu o bell neu'n nawddoglyd.

Er bod ganddi gyfraniad pwysig i'w wneud i'r gwaith trawsnewid, nid yr Eglwys yn unig sydd â chyfrifoldeb am hyn, a gelwir arni i weithio mewn deialog a phartneriaeth ag eraill, gan werthfawrogi'r hyn y byddan nhw'n ei roi i brofiad y gymuned. Neges bwysig sy'n dod i'r amlwg wrth i ni wrando o fewn CTBI yw'r ffordd y mae'r ddadl sy'n mynnu polareiddio a rhannu – y down ar ei thraws yn aml yn y cyfryngau – yn cyferbynnu â phrofiad bugeiliol yr eglwys leol. Yno cawn ein hysbrydoli a'n hannog gan yr haelioni, y tosturi a'r gwytnwch a geir yn y gymuned o'n cwmpas. Mae helpu i gyfathrebu gwirionedd y profiad hwn yn her ac yn gyfle i'r Eglwys.

**Cwestiynau ar gyfer myfyrdod a thrafodaeth**

- Beth sy'n rhoi gobaith ac anogaeth i chi am y cyfraniad gall yr Eglwys ei wneud i'r gwaith o adeiladu pontydd a goresgyn rhaniadau mewn cymdeithas?
- Beth ydych chi'n ei ystyried yw rhai o'r rhwystrau neu'r cyfyngiadau mwyaf arwyddocaol ar rôl yr Eglwys yn y gwaith hwn?
- Pwy yw rhai o'r partneriaid pwysicaf i'r Eglwys ar hyn o bryd yn y gwaith hwn?

**Gweithredu**

- Ystyriwch y gwahanol ffyrdd y mae cymuned eich eglwys leol yn cyfathrebu â phobl – yn fewnol ac yn allanol. A oes unrhyw beth yn eich synnu wrth i chi adlewyrchu'r negeseuon a gyfleir ynglŷn â sut mae 'ein cymuned' yn cael ei diffinio o fewn eich eich cyd-destun?
- Rhestrwch y prif leoedd y mae pobl yn cwrdd ac yn ymgynnull yn y gymuned ehangach – pa mor bresennol yw'r Eglwys yn y gwahanol gyd-destunau hyn. Beth allai oblygiadau hyn fod ar gyfer rôl arweinyddiaeth yr Eglwys ochr yn ochr ag eraill?
- Adolygwch negeseuon diweddar gan eich Eglwys ac ystyried p'un a oes yna unrhyw gyfleoedd y gellid eu datblygu i helpu i rannu'r straeon o gefnogaeth, estyn allan a gofal sy'n dangos tosturi a gwytnwch y gymuned leol.

**Gweddi**

Arglwydd,
Diolchwn am y cyfleoedd a roddir i'r Eglwys i ddangos arweinyddiaeth mewn amseroedd cythryblus,
ac am yr adnoddau y gallwn eu rhoi i gymunedau mewn trafferth.
Bendithiwch y rhai sy'n gweithio ac yn gwirfoddoli yn ein heglwysi,
ac sy'n cadw'r cysylltiadau hyn yn fyw
ac yn tystio i rodd dy gariad sy'n iacháu.
Rydym yn ddiolchgar am yr ysbrydoliaeth a welwn
wrth gyd-deithio yn ein cymunedau
sy'n ceisio ymateb gyda haelioni a chefnogaeth
i'r rhai sydd mewn angen.
Boed i'r enghreifftiau hyn fod yn oleuni i fyd sy'n brwydro yn erbyn tywyllwch rhaniadau.
Amen.

# O Gefn Gwlad

## Cynghanedd

Na, dwi ddim wedi camgymryd *Cenn@d* am gylchgrawn llenyddol, nac yn gobeithio trwy'r gynghanedd, y gyfundrefn ryfeddol, ieithyddol, eiriol honno, am ryw fath o anfarwoldeb dros dro. Dyna gafodd Thomas Morgan yr Ironmonger ('Bydd imi anfarwoldeb tra foch byw') yng ngherdd W. J. Gruffydd, ac y caiff pob bardd sy'n ennill y Gadair yn y Genedlaethol tra bydd cof amdano a darllen ar ei waith. Mae'n demtasiwn trafod anfarwoldeb, ond gwell peidio rhag imi fynd i ddyfroedd dyfnion!

Callach cadw at y gynghanedd, a chyfundrefn ryfeddol ydyw i bawb fyddech chi'n gofyn iddyn nhw am ddiffiniad, am wn i. Mae'n rhywbeth sy'n perthyn i ni'r Cymry yn unig, ac ryden ni'n dal i wneud yn fawr ohoni – a hir y parhaed hynny. Tybiais y byddai *Geiriadur Prifysgol Cymru* yn nodi sawl ystyr i'r gair, ond siom gefais i gan mai cyfyng iawn yw'r ddau ystyr gafodd o: y gyfundrefn y soniais amdani yw un; cyfansoddiad cerddorol yw'r llall.

Rhaid felly droi at un o'n beirdd i gael diffiniad arall ohono, ac at un o'r goreuon, sef Gwilym R. Jones. Na, dwi ddim am ailadrodd fy nicter wrth Banel Golygyddol *Caneuon Ffydd* am ddewis peidio cynnwys ei emyn ardderchog 'Yn wylaidd plygu wnawn' yn y gyfrol. (Ac ni chawsom erioed gan neb o'r panel wybod pam, gyda llaw!) Ryden ni'n dal i'w ganu yma yng Nghefnddwysarn! Yn hytrach rwyf am ddyfynnu llinell o'i gerdd 'Cwm Tawelwch', cerdd y cyfeiriais ati o'r blaen yn gymharol ddiweddar. A dyma'r llinell sy'n disgrifio'n cyflwr gwael: 'Nid oes gynghanedd ynom.' A dyna i chi un o ddoniau gwir fardd: gallu rhoi ystyr newydd i hen air. Beth yn union mae o'n ei olygu wrth ddweud nad oes gynghanedd ynom? Fe geisiaf ateb, neu o leia ddweud beth mae o'n ei olygu i mi. A gwneud hynny yng nghyd-destun y ddau ddiffiniad sydd yn y geiriadur.

Un o eiriau pwysicaf y gyfundrefn ryfeddol honno, y gynghanedd, yw cydbwysedd. Gŵyr llawer ohonoch hynny yn well na mi: y syniad fod cytseiniaid ar ddechrau llinell yn cael eu hateb gan gytseiniaid yn ei hanner olaf. Ond beth mae'r cydbwysedd yma'n ei olygu yn ein bywyd personol ni? Haws dweud beth mae anghydbwysedd yn ei olygu. Onid gorddibyniaeth ar rywbeth, onid ei gor-wneud hi? Ystyriwch y sawl sy'n gaeth i gamblo, yn gaeth i gyffuriau, yn gaeth i alcohol, yn gaeth i bleser, i'r hunan, i ryw gwyrdroëdig. Caethiwed yw unrhyw orddibyniaeth, a diffyg cynghanedd ydyw. Ac y mae bywyd y cyfryw rai yn gallu arwain yn y pen draw at dor cyfraith, heb sôn am dristwch ac anobaith, ac yn derfynol i lawer, at hunanladdiad.

Mae yna ryw eironi rhyfedd yn y ffaith y gall rhai pethau sy'n bleser inni, sydd efallai'n gysur i ni, sy'n cyfrannu tuag at wneud bywyd yn werth ei fyw, fod yn y pen draw yn rhwystr i ni, yn bwn ac yn gaethiwed. Y ci anwes hoffus, cariadus yn ymosod ar ei feistr!

Ond os cynhwyswn ein crefydd yn y gymysgedd, a rhoi iddi ei lle priodol, gall sicrhau i ni fywyd cytbwys gyda phopeth dan reolaeth. Gall ein harwain ar hyd ffordd bywyd heb wyro i'r dde na'r aswy, ein cadw'n ddiogel. Cofiaf bregethwr unwaith yn dal y Beibl uwch ei ben mewn cyfarfod pregethu yng Nghapel Tegid, y Bala, ac yn dweud: 'I bawb ohonon ni ar briffordd bywyd, dyma'r *highway code*.' Ie, cyfundrefn arall fel y gynghanedd – cyfundrefn o reolau ac arfer dda i sicrhau ein dioglewch ar ffordd bywyd. Gellir edrych ar y Beibl, rannau ohono'n sicr, o'r safbwynt hwnnw.

Yr ydym, yn ein taith drwy'r byd a thrwy fywyd, angen gweithredu cydbwysedd, cael y gorau o bopeth addas (ac nid popeth sydd) heb ormodiaith, gan gadw popeth o fewn terfynau rheolaeth a diogelwch, a chael yn y pethau hyn weision, nid meistri. O wneud hynny cawn hefyd brofi'r ystyr arall i'r gair cynghanedd, sef cytgord.

A dyna un peth y mae mynychu capel ac eglwys yn gallu ei wneud i ni, sef rhoi i ni y gynghanedd a'r cytgord hwn yn ein bywyd a'n harfogi ar gyfer byd sy'n bopeth ond diogel i ni, yn wir yn beryclach mewn llawer ffordd nag erioed. Neu, yng ngeiriau emyn esgymun Gwilym R.:

O fewn dy dŷ, ein Duw,
Y mae tangnefedd drud,
A'n nertha ni i droi yn ôl
I'r llym herfeiddiol fyd.

*Elfyn Pritchard*

# Capel y Tabernacl, Ceinewydd

Ymhlith digwyddiadau arferol y capel – oedfaon ar y Sul, datganiadau ar yr organ a chyfarfodydd gweddi wythnosol – mae cannoedd o bobl yn dod trwy ddrysau'r capel oherwydd ein cysylltiad â Diwygiad 1904–05 a gychwynnodd yn y capel, ac ni fu 2025 yn ddim gwahanol. Cawsom ymweliadau gan unigolion a grwpiau bach o bob rhan o Brydain ac o dramor. Yn eu plith yr oedd grŵp o hanner cant o ogledd Cymru yn cynrychioli'r Wild Fire Revivalists a 150 o bobl ifanc o Dde Corea, a ddaeth ar ran yr elusen Gristnogol European Prayer Mission. Roedd y bobl yma o Gorea ar eu hunfed ymweliad ar ddeg â Phrydain, ac yn ystod eu hymweliad wedi cynnal oedfaon o weddi mewn 13 o wahanol adrannau, cyn cynnal gwasanaeth o weddi unedig yng Nghaerdydd, cyn dod atom i'r Tabernacl. Pwrpas eu hymweliad â Chymru yw gweld y gwynt ysbrydol yn chwythu dros Gymru unwaith eto, mewn ymateb i'w gweddïau.

Croesawodd y Parch. Dilwyn O. Jones y ddau barti yn gynnes iawn i'n plith cyn i June Evans rodi hanes cychwyniad y Diwygiad yn y capel gyda datganiad Florrie Evans, a ddaeth yn wreichionen fyddai'n cynnau'r tanau diwygiadol ar draws Cymru: 'O'r Cei y daeth sôn gyntaf am sŵn ym mrig y morwydd'. Cafodd yr ymwelwyr i gyd ymborth yn y festri cyn iddynt adael, a da oedd bod yno yn eu plith.

Gan fod y chwiorydd yn cynnal dosbarth crefftau bob wythnos, penderfynwyd cynnal arddangosfa o'u gwaith yn y festri yn ystod yr haf. Bu diddordeb mawr yn eu gwaith, gyda'r bobl leol yn ogystal â'r ymwelwyr yn manteisio ar y cyfle i edrych ar yr arddangosfa a gwerthfawrogi beth oedd y chwiorydd wedi gallu ei gyflawni.

Ddechrau 2026, gan fod aelodau newydd wedi ymaelodi yn y capel a gafodd eu magu yn yr Eglwys yn yr Alban ond sydd wedi byw yng Nghymru ers blynyddoedd, penderfynnwyd dathlu diwrnod Robert Burns, a symud o'r dathlu traddiadol ar ddydd Santes Dwynwen i gynnal pryd o fwyd 'haggis a cranachan'. Cafwyd darlith ar hanes y bardd, i orffen prynhawn arbennig a gwahanol i'r arfer. Edrychwn ymlaen yn awr i ddathlu ein gŵyl ein nawddsant Dewi gyda datganiad ar yr organ o ganeuon Cymraeg a phryd o fwyd traddodiadol Gymreig.

*June Evans*
*Ysgrifennydd*

# O'r galon

## Daioni yn amlygu ei hun yn ein byw

Wrth i mi fyfyrio ar ddaioni, ffrwyth a mynegiant yr Ysbryd Glân ym mywyd y credinwyr, daw ymadrodd o fyd amaeth i'm meddwl, sef 'da byw'. Fiw i mi, hogyn o'r dre, geisio esbonio'i darddiad na'i ddiffinio. Felly, dyma droi at Eiriadur Prifysgol Cymru a chanfod:

> **da**: Cyfoeth, golud, meddiannau, llawnder neu ddigonedd o bethau'r byd; mwyniant cyfoeth; eiddo neu gyfoeth symudol megis anifeiliaid, dodrefn, &c.; praidd, stoc anifeiliaid … &c.

Cyn dyddiau arian a chyfrifon banc, cyfrifid cyfoeth fesul pen y 'da'. Tarddiad 'cyfalaf' yw 'cyf'+'alaf', ac alaf yw 'gyr (o wartheg neu o feirch), buches; cyfoeth, trysor, eiddo'.

Dwi am gamddefnyddio'r ymadrodd yn llwyr, ac awgrymu fod ynddo ddarlun geiriol o'r saint, gan awgrymu Salm 100:3 yn gyfiawnhad testunol:

> Gwybyddwch mai'r ARGLWYDD sydd Dduw;
> ef a'n gwnaeth, a'i eiddo ef ydym,
> ei bobl a defaid ei borfa.

Meddyliwch amdanom ni yn nhermau 'da byw' yr Arglwydd, ac fe welwn mai ni yw ei gyfoeth ef yn y byd. Ac estyniad naturiol o hyn yw ei fod am ein gweld yn lluosogi, ac yn tyfu.

Fe welwn hefyd yn y dechreuad fod yr oll a greodd Duw yn dda, a'r ddynolryw yn dda iawn:

> Gwelodd Duw y cwbl a wnaeth, ac yr oedd yn dda iawn.
> A bu hwyr a bu bore, y chweched dydd.
> (Genesis 1:31)

Does ond rhaid edrych ar y byd fel y mae i ddeall nad yw heddiw yn dda fel y'i crëwyd ac y bwriadodd Duw. Ond ystyriwch, os cyhoeddodd ef mai da ydoedd ar y chweched dydd, cymaint mwy yw ei ddyfarniad ar ei greadigaeth newydd ynom yng Nghrist, ein cyfiawnhad drwy ffydd.

Fe gofiwch, yn hanes y Creu, i Dduw osod Adda yn yr ardd, 'i'w thrin a'i chadw', gyda'r bwriad o amlhau a lluosogi ei ddaioni drwy'r greadigaeth. Nid yw bwriad Duw wedi newid; yng Nghrist mae am i ni fod yn ffrwythlon ac amlhau, a byw yn llawn ac yn dda: 'Oherwydd ei waith ef ydym, wedi ein creu yng Nghrist Iesu i fywyd o weithredoedd da, bywyd y mae Duw wedi ei drefnu inni o'r dechrau' (Effesiaid 2:10).

Wrth ein hanfon ni allan i'r byd gyda'i Gomisiwn Mawr i wneud disgyblion o bob cenedl, llwyth ac iaith, eu dysgu i gadw ei orchmynion ac i fyw bywyd o weithredoedd da, fe welwn mai ni yw cyfrwng Duw i ddod â daioni i bob rhan o'i greadigaeth.

Yn wyneb y tor calon a'r anobaith yn ein hoes, mae'n rhwydd digalonni a theimlo'n ddiymadferth. Cawn ein cyhuddo gan y di-gred a'r siniciaid sut gall Duw fod yn dda a chariadus yn wyneb y drygioni a'r dioddefaint sydd? Pam nad yw'n gwneud rhywbeth. Yr ateb cyntaf, wrth gwrs, yw hwnnw sydd yn Ioan 3:16, 'Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab'. Ond yr her enfawr yw mai ei bobl Ef ydym, ei dda byw, ac mai ni yw cyfrwng ei deyrnas a'i ddaioni heddiw.

Rhaid cyfaddef ein hannigonolrwydd i'r her, ond yna edrych ar y doniau, yr adnoddau a'r disgyblaethau mae wedi eu darparu ar gyfer y gwaith. Rwyf wedi amlinellu llawer o'r rhain eisoes yn y gyfres 'O'r Galon', ac fe welwn fwy eto wrth barhau. Ond, wrth gloi, dyma awgrymu ambell destun myfyrdod a gweddi sy'n gyfarwydd i ni i gyd.

Trowch at Ioan 15, a chan gofio mai dyma ran o neges ymadawol Iesu, wrth iddo baratoi ei ddisgyblion ar gyfer y dasg o'u blaenau:

- myfyriwch ar y ddameg sydd yma am y winwydden, y garddwr, y canghennau a'r ffrwyth;
- pa ffrwyth sydd yn amlygu ei hun yn fy mywyd?
- sut mae Iesu am i mi aros ynddo Ef, ac yntau ynof finnau?
- myfyriwch ar ei ddaioni a'i garedigrwydd ef yn ei berson, yn ei waith ac yn eich bywyd
- gweddïwch am gael dwyn mwy o ffrwyth.

Trowch am weddi at rif 721 yn *Caneuon Ffydd*:

> O na bawn yn fwy tebyg
>   i Iesu Grist yn byw,
> yn llwyr gysegru 'mywyd
>   i wasanaethu Duw:
> nid er ei fwyn ei hunan
>   y daeth i lawr o'r ne';
> ei roi ei hun yn aberth
>   dros eraill wnaeth efe.
>
> O na bawn i fel efe. AMEN

*Hywel Rhys Edwards*



# Rôl plant ym mywyd yr eglwys – rhan 2

Yn rhifyn 258 o *Cenn@d* (4 Chwefror) cyhoeddwyd erthygl oedd yn cynnwys Siarter ar gyfer gwaith plant yn yr eglwys. Os ydych fel eglwys/gofalaeth yn awyddus i drafod yn ehangach le a rôl gwaith plant ac ieuenctid ym mywyd eich eglwys, beth am ddefnyddio adnoddau CAMU? Mae'r adnoddau hyn, sydd ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim, yn cynnwys:

- saith astudiaeth Feiblaidd ar hanes y proffwyd Nehemeia
- saith ffilm yn cael eu cyflwyno gan y Parch. Rhys Llwyd Caernarfon
- holiaduron i'w rhannu ymhlith aelodau'r eglwys leol a'r gymuned ehangach
- pecyn o syniadau ymarferol o weithgareddau y gellir eu trefnu yn lleol.

Datblygwyd yr adnoddau yn wreiddiol gan Wasanaeth Plant ac Ieuenctid Eglwys Bresbyteraidd Cymru, ac maent bellach wedi eu haddasu i fod yn berthnasol i bob enwad a thraddodiad Cristnogol.

Pwrpas cynllun CAMU yw helpu eglwysi i ddod yn eglwysi sy'n gwneud y canlynol:

**CYHOEDDI** Duw ac Iesu ac yn gwasanaethu'r gymuned leol gyda chynhesrwydd a chroeso, gan adlewyrchu Iesu a llawenydd yr Efengyl.

**ADDYSGU** pobl am Iesu, gan ddarparu patrymau addoli sy'n cynnig profiadau ysbrydol i bobl o bob oed a gweithgareddau sy'n helpu pobl i ddyfnhau eu perthynas â Duw yn Iesu.

**MEITHRIN** y naill a'r llall wrth eu hannog i fentro mewn cyfeiriadau newydd: annog ein haelodau i fod yn rhan o'r gwaith, ac annog teuluoedd i fod yn rhan o'r eglwys leol.

**UNO** pobl o bob oedran o fewn yr eglwys mewn gwaith ac addoliad, gan ffurfio partneriaethau i hyrwyddo teyrnas Dduw yn y gymuned.

Wrth wraidd bywyd yr eglwys leol y mae'r gymuned—ac yn ganolog i'r gymuned honno y mae plant. Nid 'dyfodol yr eglwys' yn unig yw plant; maent yn rhan fyw a gweithredol o'r eglwys heddiw. Trwy eu presenoldeb, eu cwestiynau gonest a'u llawenydd naturiol, maent yn herio ac yn cyfoethogi ffydd y gynulleidfa gyfan. Yn y traddodiad Cristnogol, mae plant yn rhodd gan Dduw.

Mae'r Beibl yn ein hatgoffa o'u gwerth a'u lle canolog yng nghalon Iesu ei hun. Pan fydd yr eglwys leol yn rhoi lle amlwg i blant, mae'n adlewyrchu'r alwad honno i'w croesawu, eu meithrin, a'u hamddiffyn. Nid tasg eilradd mohoni, ond cyfrifoldeb sanctaidd sy'n galw am ymrwymiad, gofal a dyfalbarhad. Mae rhoi blaenoriaeth i blant yn fuddsoddiad yn y dyfodol, ond hefyd yn weithred ffydd yn y presennol. Mae eglwys sy'n meithrin plant yn eglwys sy'n tyfu mewn cariad, tosturi a gobaith. Trwy greu awyrgylch diogel, croesawgar a llawn bwrlwm, gall yr eglwys leol sicrhau bod plant nid yn unig yn teimlo'u bod yn perthyn, ond eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u galw i fywyd o ffydd a gwasanaeth.

Yn y pen draw, pan fyddwn yn rhoi plant yng nghanol bywyd yr eglwys, rydym yn dilyn esiampl Crist ei hun – ac yn caniatáu i'r eglwys adlewyrchu'n llawnach deyrnas Dduw, lle mae pawb, o'r ieuengaf i'r hynaf, yn cael lle wrth y bwrdd.

Gellir lawrlwytho holl adnoddau CAMU o'r wefan: https://ysgolsul.com/?page_id=10865

*Aled Davies*

# Cofio'r cewri

225 o flynyddoedd yn ôl i'r mis hwn y ganed **William Williams, 'Caledfryn'** (6 Chwefror 1801–23 Mawrth 1969), gweinidog gyda'r Annibynwyr, bardd a beirniad llenyddol. Hanai o deulu o wehyddion yn Ninbych. Roedd yn un o ffigyrau eisteddfodol amlycaf ei ddydd a gwnaeth lawer i godi safonau llenyddiaeth Gymraeg ei gyfnod. Treuliodd ddyddiau olaf ei oes yn ne Cymru fel gweinidog yn y Groes-wen, Morgannwg. Mae Capel y Groes-wen wedi'i leoli ar lethrau Mynydd Meio, gyda golygfa dros Gaerffili. Mae'r fynwent yn cynnwys gweddillion rhai o bregethwyr, cerddorion a ffigyrau llenyddol enwocaf Cymru, gan ennill i'r capel y teitl 'Addoldy Westminster Cymru'.

150 o flynyddoedd yn ôl i'r mis hwn bu farw **Daniel Davies, 'Y Dyn Dall'** (15 Tachwedd 1797–18 Chwefror 1876), gweinidog gyda'r Bedyddwyr. Fe'i ganed ym Moelfre, Llanfair-ar-y-bryn, Sir Gâr. Symudodd y teulu i Ferthyr, lle collodd Daniel ei olwg ar ôl goroesi'r frech wen. Bu'n fyfyriwr yn Ysgol Frenhinol y Deillion, Lerpwl. Bu'n weinidog ar Gapel Cymraeg Bedyddwyr Bethesda, Abertawe, am flynyddoedd lawer, gan olynu Joseph Harris (Gomer). Bu farw'r pregethwr enwog Christmas Evans yng nghartref Daniel Davies yn Abertawe yn 1838, ac fe bregethodd yntau yn ei angladd, Roedd Daniel Davies yn ŵr amlwg yn ei enwad yn ei ddydd.

*(O Bapur Elim, Heol Awst a'r Priordy)*

**S4C**

***S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 22 Chwefror, am 7:30yh –**
**Yr Eglwys Fodern**
Cerdded ffordd ganol rhwng 'symud efo'r oes' a chadw'n driw i draddodiad – dyna'r her i'r eglwys fodern. Wrth i'r Eglwys yng Nghymru drafod dyfodol seremonïau ar gyfer cyplau o'r un rhyw, Lisa Gwilym sy'n cael cwmni rhai sydd ar flaen y gad wrth geisio ffordd ymlaen – y darpar offeiriad Glyn Wise, Deon newydd Cadeirlan Bangor, y Parchedicaf Manon Ceridwen James, a'r Parchedig Sara Roberts, aelod blaenllaw o Gaplaniaeth LHDTC+ Esgobaeth Bangor. A chawn berfformiad gan Gôr Ieuenctid Môn.

**BBC radio cymru**

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 22 Chwefror, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Rob Nicholls

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 22 Chwefror, am 12:00yp**
**Y Grawys o Gaernarfon**
Oedfa dan arweiniad Anna Jane Evans

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol 01745817584 / 07957510346 yn ystod oriau swyddfa
post@panel.cymru panel.cymru
neu Thirtyone:eight 0303 003 1111
(am gyngor tu allan i oriau swyddfa)

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru